

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Chwefror, 2018 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn

PRESENNOL

Cynghorwyr : Lynford Thomas (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harri Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Haf Hughes

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng Hywel Ifans

2. PERSONOL

- i. Dymuniadau gorau i'r Cyng. Owen Llywelyn a Dwynwen sydd wedi ymestyn eu teulu ac wedi mabwysiadu dau o blant bach.

3. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 12fed Rhagfyr, 2017 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen.

4. MATERION YN CODI

- i. (12i). Bu'r Cyng. Lynford Thomas yn holi'r Cyfarwyddwr Addysg am esboniad pam bod y disgyblion sy'n mynychu'r Uned yn Ysgol Cribyn yn cwrdd yn Neuadd Dihewyd ond nid oedd yn gwybod yr ateb. Mae'n debyg serch hynny mai disgyblion yr Uned yn Aberaeron sy'n defnyddio'r Neuadd yn Dihewyd ac nid disgyblion Uned Cribyn.

5. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros y ddeufis diwethaf. Fel arfer, bu'n brysur iawn yn mynychu cyngherddau, cyfarfodydd ac achlysuron arbennig.

6. ADRODDIAD CYFARFOD Â SWYDDOGION Y SIR

Mynychwyd y cyfarfod hwn ar y 9fed o Ionawr yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed gan Y Cynghorwyr Lynford Thomas a Haf Hughes ynghyd â'r Clerc, Eleri Lewis. Yn ystod y cyfarfod cafwyd cyflwyniadau gan:

- Y Prif Weithredwr newydd, Eifion Evans, a roddodd adroddiad ar weledigaeth strategol y Sir.
- Y Prif Gyfrifydd, Justin Davies, a gyflwynodd adroddiad ariannol a'r arbedion sydd eu hangen hyd at 2021
- Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaeth Cwsmeriaid. Arwyn Morris, a gyflwynodd wybodaeth am y gwasanaeth galwadau newydd CLIC. Bydd cynghorwyr yn cael cyfle i gael hyfforddiant ym mis Ebrill.
- Cafwyd gwybodaeth hefyd am gynllun newydd o'r enw Cynlluniau Bro – cynllun sydd yn dod â chymunedau at ei gilydd i drafod eu hanghenion penodol nhw. Llanbed yw un o'r ardaloedd dan sylw. Yn sgil y wybodaeth a gyflwynwyd, pwysleisiodd y

Cadeirydd, Lynford Thomas, bwysigrwydd cymryd rhan yn y digwyddiadau arfaethedig gan y bydd cyfle o bosib i ddylanwadu ar gynlluniau lleol a fydd o fudd i'r gymuned.

6. CYFARFOD UN LLAIS CYMRU

Mynychwyd y cyfarfod gan y Cyng. Lynford Thomas a'r Cyng. Harri Williams. Cadeiriwyd y cyfarfod hwn yn absenoldeb Cadeirydd Un Llais Cymru gan y Cyng. Harri Williams. Cafwyd anerchiad gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, Eifion Evans, a roddodd gyflwyniad ysbrydoledig i'r rhai oedd yn bresennol. Soniodd hefyd am y toriadau ariannol ers 2012 (£38.5 miliwn) a nododd y bydd cyfanswm y toriadau erbyn 2021 yn £51 miliwn.

Soniodd hefyd am neges Lyn Cadwalladar, Prif Weithredwr Un Llais Cymru. am bwysigrwydd gwaith y mudiad, gan awgrymu efallai y dylid cael cyfarfodydd yn fwy amal ac y dylid ysytried Un Llais Cymru yn undeb ar gyfer Cynghorau Bro. Mae'n siwr y clywn ragor am hyn yn y dyfodol.

7. GOHEBIAETH

- i. Hyddorddiant Ar Gynllunio.(28/2/18) Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr Lynford Thomas a Lyn Williams yn mynychu'r cyfarfod.
- ii.Gweithdy Trawsnewid Lles.(27/2/18) Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr Harri Williams a Johnny Davies yn mynychu'r gweithdy.
- iii. Penderfynwyd ar ymateb i arolwg Un Llais Cymru i'r Adolygiad O'r Sectorau Cynghorau Lleol
- iv..Derbyniwyd yr Adolygiad ar Ffiniau a Democratiaeth Anfonwyd ein hymateb ni fel Cyngor ar y 12fed Ebrill 2017 a nodwyd yr ymateb hwnnw yn Atodiad 5, tud. 8
- vi. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y cyfraniad o £25 oddi wrth Eisteddfod Llangollen. Yn sgil y rhodd, cynigiwyd 2 docyn am ddim i'r Eisteddfod (un diwrnod) ac i'r gyngerdd a gynhelir ar y 5ed o Awst. Derbyniodd y Cyng. Harri Williams y cynnig.
- vii Derbyniwyd cais am gyfraniad tuag at Gyngerdd Mawreddog Cymru – Ohio 2018. Penderfynwyd trafod y cais yn y cyfarfod hwn gan fod y gyngerdd yn cael ei chynnal ym mis Mehefin. Penderfynwyd ar rodd o £50 wedi ei gynnig gan y Cyng. Glyn Davies a'i eilio gan y Cyng. Harri Williams.

8. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 13eg Mawrth, 2018 yn Neuadd Dihewyd

8. CYLLID

i. Costau Etholiadau eleni fydd £233.30 a fydd yn cael ei dynnu o'r Presept ym mis Ebrill. Penderfynwyd ei dalu yn ôl yr arfer.

ii. Cytunwyd i dalu £212.00 am aelodaeth flwyddyn Un Llais Cymru

9. CYNLLUNIO

Nodwyd dau gais a gafodd ganiatad gan y Cyngor Sir fel a ganlyn:-

Rhif 11 Siop Troedyrhiw – estyniad a throsi sgubor yn llety ychwanegol

Rhif 80 Cadw adeilad arddull 'hobbit', cawod a charafan yn Nhreberfedd

Dim materion cynllunio eraill i'w trafod

10. UNRHYW FATER ARALL

i. Yn dilyn cais gan y Clerc am osod Perspex newydd ar rai o'r byrddau gwybodaeth, penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglyn â phrisiau ar gyfer byrddau Cribyn, Dihewyd ac Ystrad Aeron.

ii. Penderfynwyd gofyn i'r Cyng. Lyn Williams i ofyn Wyn Jones i wneud y gwaith o osod slab o dan sedd y cyngor ger yr arosfa bus ar y ffordd mas o Gribyn i gyfeiriad Felinfach gan fod tyfiant yr haf yn ei wneud yn amhosib i'w defnyddio.

iii. Estynnodd Eleri ei diolch diffuant i'r cyn-Glerc am roi o'i amser wrth drosglwyddo'r awenau, a'i amynedd wrth esbonio'r gofynion. Gofynwyd gan y Cadeirydd a'r aelodau iddi gofnodi'r gwerthgawrogiad hwn.

iv. Cinio'r Cadeirydd. Dewis lleoliad y Cadeirydd eleni yw'r Vale yn Felinfach a chytunwyd ar ddyddiad sef Nos Wener, Mawrth 16eg. Penderfynwyd yn unfrydol i estyn gwahoddiad i Mr. Bryn Hughes.

8. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 13eg Mawrth, 2018 yn Neuadd Dihewyd